The Wildlife Trusts



# *Gweledigaeth ar gyfer* dychwelyd **afancod** i Gymru a Lloegr





**Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn credu y gall afancod ddod â budd i ddalgylchoedd afonydd mawr yng Nghymru a Lloegr. Drwy weithio mewn partneriaeth byddwn yn cefnogi cymunedau i fyw ochr yn ochr â'r mamaliaid diwyd hyn, a fydd yn chwarae rhan hanfodol yn adferiad bywyd gwyllt gwlyptiroedd.**

© NICK UPTON

# Pam mae afancod mor bwysig?

**Mae afancod yn rhywogaeth allweddol.** Maent yn chwarae rhan unigryw wrth greu cynefinoedd newydd y mae llawer o rywogaethau yn elwa ohonynt. Mae hyn ar ben ei hun yn eu gwneud yn bwysig i'w hailgyflwyno, arwahân i'r cyfoeth o fuddion eraill y maent yn eu darparu ar gyfer cymdeithas.

Rydym yn wynebu'r anochel y bydd llawer o rywogaethau'n diflannu o'r DU dros y degawdau nesaf. Mae sicrhau bod rhywogaethau allweddol brodorol yn cael eu dychwelyd, lle gellir sicrhau iechyd eu poblogaeth yn y dyfodol, yn hanfodol os ydym am osgoi'r sicrwydd o golli bioamrywiaeth.

Mae llawer o'r rhywogaethau y gall cynefinoedd a grëwyd gan afancod eu cynnal dan fygythiad. Er enghraifft, gall gwlyptiroedd newydd ddarparu cynefinoedd perffaith ar gyfer poblogaethau llygod pengron y dŵr ffyniannus.

Afancod yw peirianwyr dyfrol natur ac yn darparu ystod heb ei hail o atebion sy'n seiliedig ar natur, sy'n cefnogi:

- **Bioamrywiaeth:** mae corff mawr o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod afancod yn creu cynefinoedd gwlyptir amrywiol, deinamig, yn ogystal â strwythur sianel afonol naturiol, sydd o fudd i blanhigion blodeuol, amffibiaid, pysgod, adar, ystlumod a phryfed.
- **Hydroleg:** mae afancod yn naturiol yn ailgysylltu afonydd â'u gorlifdiroedd. Drwy storio mwy o ddŵr i fyny'r afon mae eu gweithgaredd argae yn arafu'r llif, gan leihau brig llifogydd niweidiol, a chynyddu lefelau dŵr ar adegau o sychder
- **Ansawdd dŵr:** mae argaeau afancod a gwlyptiroedd yn gweithredu fel hidlwyr dŵr naturiol trwy gael gwared â gormodedd o faetholion a llygryddion.
- **Cymunedau ac economïau lleol:** mae tystiolaeth yn dangos bod afancod yn dod â manteision sylweddol o ran gwariant cynyddol twristiaeth (ymwelwyr). Gyda chynnydd yn yr ymdeimlad o 'eco-bryder' sy'n gysylltiedig â'r argyfyngau natur a hinsawdd deuol, maent hefyd yn rhoi gobaith ac ysbrydoliaeth trwy ddarparu stori lwyddiant cadwraeth.

Mae afancod yn darparu dewis amgen naturiol cost-effeithiol i helpu i fynd i'r afael â'n heriau mwyaf dybryd o ran adnoddau dŵr megis llifogydd a sychder.



© ORSOLYA HAARBERG, NATUREPL.COM

DIFFINIAD

### Rhywogaethau Allweddol

rhywogaethau sy'n chwarae rhan anghymesur o fawr yn nifer yr achosion a'r lefelau poblogaeth o rywogaethau eraill yn eu hecosystemau neu gymuned. (Cyf: Natur)

# Rhyddhau I'r Gwyllt a Thiroedd Caeedig



© JEN GUYTON, NATUREPL.COM

DIFFINIAD

### Rhyddhau i'r gwyllt

yn galluogi afancod i gytrefu dalgylch afon yn naturiol. Os yn rhyddhau i'r gwyllt rhaid cydymffurfio â chanllawiau ailgyflwyno rhywogaethau, a dylid sefydlu grwpiau rheoli afancod yn y dalgylch. Er gwaethaf ymgynghoriad gan Defra yn gweld cefnogaeth gref, nid yw rhyddhau i'r gwyllt yn cael eu trwyddedu yn Lloegr ar hyn o bryd.

DIFFINIAD

### Tiroedd caeedig

lle mae afancod yn cael eu rhyddhau i wlyptiroedd sydd wedi'u ffensio'n ddiogel gyda digonedd o gynefin addas, o dan drwydded. Mae tiroedd caeedig yn aml yn gymharol fach o ran maint, yn nodweddiadol 2-5 hectar.

**Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn credu mai nawr yw'r amser i fod yn rhoi trwyddedau i ailgyflwyno mwy o afancod i'r gwyllt** yn hytrach na mewn tiroedd caeedig. Byddai hyn yn galluogi afancod i ddod yn rhan o'n hecoleg frodorol, gan ddarparu'r offeryn adfer naturiol mwyaf pwerus i'n gwlyptiroedd dan fygythiad, ynghyd a llu o fanteision i gymdeithas.

Mae tiroedd caeedig wedi chwarae rhan hollbwysig wrth brofi rhagdybiaethau ac mewn ymchwil, a byddant yn parhau i chwarae rhan bwysig lle mae buddion yn benodol i safle e.e. i fyny'r afon o drefi a phentrefi sy'n dueddol o lifogydd, neu lle nad yw rhyddhau i'r gwyllt yn ymarferol eto. Maent hefyd yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth alluogi cymunedau i weld drostynt eu hunain y manteision y mae afancod yn eu darparu, fel cam tuag at ryddhau i'r gwyllt.

**Mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau ac awdurdodau ar raddfa ddalgylch gan sicrhau dichonoldeb ac ymgynghoriad cadarn i gefnogi rhyddhau afancod i'r gwyllt yn llwyddiannus ledled Cymru a Lloegr.**

Bydd yr ymrwymiad hwn yn cefnogi cynlluniau cenedlaethol i ddiogelu 30% o dir ar gyfer natur erbyn 2030. Mae'r Ymddiriedolaethau Natur hefyd wedi ymrwymo i weithio ar y cyd ag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y gall Grwpiau Rheoli Afancod gefnogi cymunedau i fyw ochr yn ochr ag afancod.



© STAFFAN WIDSTRAND, NATUREPL.COM

# Dychwelyd afancod i'r gwyllt

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn galw ar Lywodraethau'r DU a Chymru a'u hasiantaethau i fabwysiadu dull beiddgar o ailgyflwyno afancod yng Nghymru a Lloegr – gan gydnabod maint yr her i adfer iechyd ein hafonydd a'n gwlyptiroedd. Rhaid i hyn ystyried y llu o fanteision posibl, ar y cyd â'r risgiau. Dylai penderfyniadau ar drwyddedau fod yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r manteision net. Wrth bwyso a mesur penderfyniadau ar geisiadau am drwydded, dylai llywodraethau fabwysiadu barn gytbwys ar farn y cyhoedd, gan roi gwerth cyfartal i bob rhanddeiliaid a sectorau.

Dylid annog prosiectau ailgyflwyno wedi'u targedu lle:

- Mae digonedd o gynefin addas i sicrhau y gall poblogaeth iach o afancod ddatblygu.
- Mae manteision amlwg i hydroleg ac ecoleg afonydd a gwlyptir naturiol o bresenoldeb afancod.
- Mae ailgytrefu naturiol yn debygol o gymryd amser hir oherwydd ynysu oddi wrth y poblogaethau presennol. Mae partneriaeth gref a sefydliad sydd wedi ymrwymo i arwain Grŵp Rheoli Afancod yn y dalgylch.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn cydnabod y bydd angen gofal mawr wrth ystyried ailgyflwyno afancod mewn ardaloedd o hydroleg sydd wedi'u haddasu'n helaeth, megis y ffendiroedd, tirweddau fferm wedi eu draenio'n drwm, a dyfrffyrdd mewndirol.

Bydd ymagwedd gydweithredol at ddeall y rheolaeth sydd ei hangen mewn gwahanol dirweddau gyda rhanddeiliaid sy'n byw ac yn gweithio ar hyd yr afonydd yn cynnig mewnwelediad a chyfleoedd ar gyfer eu dychwelyd. Rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ddalgylch i asesu dichonoldeb datrysiadau i ailgyflwyno a rheoli afancod.

Lle mae poblogaeth unigol yn y gwyllt yn fach, dylid gwella'r boblogaeth trwy ailgyflwyno unigolion a ddewiswyd, yn ofalus, i gynyddu amrywiaeth genetig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gennym boblogaethau afancod gwydn ac iach ymhell i'r dyfodol.



© NICK UPTON, NATUREPL.COM

# Rheoli afancod

Yn aml mae angen rheolaeth weithredol ar dirweddau afancod i sicrhau bod eu buddion posibl yn cael eu cynyddu i'r eithaf a bod problemau posibl yn cael eu lleihau. Ar gyfer pob poblogaeth o afancod yn y gwyllt, rhaid sefydlu systemau rheoli ag adnoddau digonol i sicrhau y darperir cyngor a chymorth i gymunedau, tirfeddianwyr a busnesau er mwyn iddynt allu cydfodoli ag afancod. Dylai hyn gynnwys sefydlu grŵp rheoli wedi adnoddi'n ddigonol, sydd yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid.

Os oes angen rheolaeth weithredol, rhaid iddo fod yn seiliedig ar hierarchaeth glir. Y cam cyntaf yw darparu cyngor a chymorth arbenigol i osgoi a lleihau problemau lleol. Yna, y cam nesaf fyddai ymyriadau lefel isel fel amddiffyn coed a thynnu argaeau bach.

Mewn achosion eithafol, lle nad yw'n bosibl dod o hyd i ffordd i randdeiliaid lleol ac afancod fyw ochr yn ochr, a bod eu gweithgareddau'n achosi problemau sylweddol, dylid ystyried trapio ac adleoli afancod. Dim ond os fydd popeth arall wedi methu y dylai awdurdodau trwyddedu ystyried difa. O ystyried y niferoedd eithriadol isel o afancod gwyllt yng Nghymru a Lloegr, ni ddylid ystyried difa hyd y gellir ei ragweld.

Mae afancod yn rhywogaeth warchodedig yn Lloegr ac mae angen cynnal llawer o weithgareddau rheoli dan drwydded. Mae darparu cyngor a chymorth o ansawdd uchel, i helpu rhanddeiliaid i ddeall pa opsiynau sydd ar gael, a rhannu gwybodaeth a phrofiad, yn hanfodol er mwyn helpu i gydfodoli ag afancod.



© ALEX HYDE, NATUREPL.COM

# Meysydd pryder a sut i'w rheoli

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn cydnabod bod meysydd sy'n peri pryder mewn rhai sefyllfaoedd penodol, yn benodol:

- **Pysgodfeydd** (yn enwedig pysgota gêm): mewn sefyllfaoedd penodol gall argaeau afancod effeithio ar bysgod yn ymfudo ac mae rhai'n dadlau y bydd y newidiadau a wnânt i gyrsiau dŵr yn effeithio ar boblogaethau eogiaid sy'n agored i niwed.
- **Tirwedd a choed**: mae rhai yn dadlau bod bôn-docio (neu brysgoedio) yn cael effaith niweidiol ar y dirwedd ac yn creu llanast ac anhrefn mewn coridorau afonydd.
- **Tyrchu a glannau'n cwympo**: mewn rhai achosion gall gweithgarwch afancod achosi problemau i dir wrth ymyl cyrsiau dŵr drwy i ddaear afancod ddymchwel, neu lle mae dŵr arglawdd (e.e. mewn camlesi).
- **Mynediad a llifogydd**: gall rhai argaeau gynyddu'r perygl o lifogydd yn lleol os ydynt yn blocio cwlfert, neu achosi problemau mynediad os oes llifogydd ar lwybrau allweddol.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn credu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o osgoi neu ddatrys gwrthdaro o'r fath lle maent yn digwydd yn y gwyllt yw:

- **Mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth**: sicrhau mai gwyddoniaeth a data yw'r ysgogwyr allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau a datrys problemau.
- **Tîm Ymateb Cyflym**: unigolion hyfforddedig a all helpu i ddatrys problemau ymarferol pan fyddant yn codi.
- **Partneriaeth ac ymgysylltu**: gwaith parhaus gyda rhanddeiliaid eraill a chynrychiolwyr cymunedol i helpu i gynyddu dealltwriaeth a normaleiddio gweithgarwch afancod.
- **Cymhellion**: mae cymhellion ariannol yn hanfodol i helpu rheolwyr tir i ennill bywoliaeth tra'n gweithio ochr yn ochr ag afancod a'r gwlyptiroedd y maent yn eu creu, a'r cyfoeth o fuddion a ddarperir ar gyfer bywyd gwyllt a chymdeithas

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn credu y bydd mynediad at gymorth ariannol i wneud mwy o le i ddŵr yn dileu'r mwyafrif o wrthdaro. Yn aml, taliadau ar gyfer datrysiadau sy'n seiliedig ar natur yw'r ffyrdd mwyaf cost effeithiol a chynaliadwy o ddatrys problemau affwysol ansawdd dŵr, llifogydd a sychder.



© DANNY GREEN, NATUREPL.COM



# Gwyddoniaeth a thystiolaeth

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur a'n mudiadau partner wedi adeiladu corff trawiadol o dystiolaeth annibynnol yn ymwneud ag afancod a'u heffeithiau. Mae ein cydweithrediadau â Phrifysgol Caerwysg wedi cynhyrchu 24 o bapurau gwyddonol a adolygwyd gan gymheiriaid. Yn ogystal ag ymchwil yn y DU, mae astudiaethau pellach ar gyfandir Ewrop a degawdau o ymchwil yng Ngogledd America.

Bydd yr Ymddiriedolaethau Natur yn parhau i weithio gyda sefydliadau academaidd blaenllaw i ddatblygu ein gwybodaeth mewn meysydd penodol, gan gynnwys:

- Archwilio capasiti posibl argaeau afancod ac addasrwydd cynefinoedd yn afonydd Prydain i ganolbwyntio ar ymdrechion ailgyflwyno a rheoli gan grwpiau afancod.
- Effeithiau afancod mewn ardaloedd â hydroleg wahanol i dde-orllewin Lloegr, megis y ffendiroedd.
- Effeithiau afancod ar fywyd gwyllt eraill sydd dan fygythiad megis poblogaethau pysgod mudol, neu gynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol fel llif sialc.
- Synhwyro o bell o dirweddau sydd wedi'u dylanwadu gan afancod.



SWIMMING BEAVER © RON WALSH; EATING BEAVER © DAVID PARKYN

# Beth sydd ei angen arnom gan lywodraethau'r DU a Chymru?

Rydym yn galw am weithredu ar frys gan Lywodraethau'r DU a Chymru i:

- Gyhoeddi strategaeth ailgyflwyno uchelgeisiol sy'n ystyried dalgylchoedd afonydd mawr Cymru a Lloegr.
- Ddarparu cymorth ariannol i reolwyr tir sy'n gwneud mwy o le i ddŵr a'r holl fanteision y mae afancod yn eu darparu i gymdeithas. Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn credu bod yn rhaid i gymorth ariannol fod ar gael drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol megis Cynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol (ELMs) a Chynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), ochr yn ochr â chyllid gwyrdd preifat.
- Gytuno ar gymorth ariannol i Grwpiau Rheoli Afancod yng Nghymru a Lloegr i ddarparu cyngor a chymorth arbenigol i gymunedau, gan wneud y mwyaf o'r buddion a lleihau gwrthdaro posibl.
- Gadarnhau ar fyrder y gall pob poblogaeth afancod gwyllt yng Nghymru a Lloegr aros a gwella iechyd genetig y boblogaeth yn weithredol. Rhaid caniatáu i'r poblogaethau hyn ledaenu'n naturiol.
- Gydnabod afancod fel rhywogaeth frodorol yng Nghymru a rhoi amddiffyniad cyfreithiol llawn iddynt.



© MATTHEW MARAN, NATUREPL.COM

# Beth fydd rôl yr Ymddiriedolaethau Natur yn hyn?

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi bod ar flaen y gad o ran llwyddiannau ailgyflwyno afancod ers degawdau:

- Mae gennym hanes heb ei ail yn y DU fel partner arweiniol y safle afancod cyntaf ac yr unig ddau ryddhad i'r gwyllt (Knapdale a Dyfnaint).
- Rydym wedi adeiladu partneriaethau cryf gan gynnwys gyda chyrff anllywodraethol amgylcheddol, gwyddonwyr, llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig a'u hasiantaethau, tirfeddianwyr, busnesau gwledig a sefydliadau pysgodfeydd
- Mae gennym bresenoldeb cryf ar lawr gwlad, sy'n rhoi gwybodaeth ardderchog i ni am amodau lleol a chysylltiadau â chymunedau.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur mewn sefyllfa ddelfrydol i chwarae rhan flaenllaw i sicrhau y gellir cyflawni strategaeth uchelgeisiol ar gyfer ailgyflwyno afancod yn llwyddiannus mewn partneriaeth â phawb y mae ganddynt fudd yn iechyd ein gwlyptiroedd yn y dyfodol.






# Gadewch i ni ddod ag afancod yn ôl...

**Ein prif ofynion gan lywodraethau'r DU a Chymru:**

- Cyhoeddi strategaeth ailgyflwyno uchelgeisiol sy'n ystyried yr holl ddalgylchoedd afonydd mawr priodol
- Darparu cymorth ariannol i reolwyr tir sy'n gwneud mwy o le i ddŵr a'r manteision mae afancod yn eu darparu
- Cytuno ar gymorth ariannol ar gyfer Grwpiau Rheoli Afancod yng Nghymru a Lloegr
- Cadarnhau ar fyrder y gall pob poblogaeth o afancod gwyllt aros yng Nghymru a Lloegr
- Cydnabod afancod fel rhywogaeth frodorol yng Nghymru a rhoi amddiffyniad cyfreithiol llawn iddynt

**Darganfyddwch fwy am brosiectau ailgyflwyno afancod Yr Ymddiriedolaethau Natur: wildlifetrusts.org/on-land/beavers**

The Wildlife Trusts

Copyright Royal Society of Wildlife Trusts 2024. Registered Charity No. 207238
Cover image: Beaver swimming at dusk © Danny Green, naturepl.com